O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1380 (Cy. 306)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Traffig Unffordd) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym* | *26 Tachwedd 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A487 a'r A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Traffig Unffordd) 2020 a daw i rym ar 26 Tachwedd 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cefnffordd yr A487" ("*the A487 trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr "cefnffordd yr A40" ("*the A40 trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun; ac,

ystyr "ffordd gyswllt yr A487" ("*the A487 link road*") yw ffordd gyswllt yr A487 (Heol Fawr A40 i'r Wesh A487), Abergwaun.

---

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r de-ddwyrain ar y darn o gefnffordd yr A487 a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r de-orllewin ar y darn o gefnffordd yr A40 a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Tachwedd 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

Y darn o gefnffordd yr A487 o’r enw y Wesh sy’n ymestyn o ganol ei chyffordd â Ffordd Gyswllt yr A487 hyd at ganol ei chyffordd â’r darn o gefnffordd yr A487 o’r enw Ffordd y Cwm.

**ATODLEN 2**

Y darn o gefnffordd yr A40 o’r enw Heol Fawr sy’n ymestyn o ganol ei chyffordd â’r A487 y Wesh a’r A487 Ffordd y Cwm hyd at ganol ei chyffordd â Ffordd Gyswllt yr A487.